NSPCC
CYMRU | WALES
Diane Engelhardt House, Unit 2, Treglown Court, Dowlais Road, Cardiff CF24 5LQ
Tŷ Diane Engelhardt, Uned 2, Llys Treglown, Heol Dowlais, Caerdydd CF24 5LQ
0844 892 0290 | nspcc.org.uk

08fed o Fedi 2015

Annwyl Gydweithiwr

**(i) Adolygiad Blynyddol ChildLine i'w gyhoeddi ddydd Iau 10 Medi**
**(ii) Mynd i'r afael â diogelwch ar-lein: cyhoeddi partneriaeth rhwng 02 a'r NSPCC**

Ysgrifennaf i roi gwybod i chi am ddau gynllun y mae'r NSPCC yn ymgymryd â hwy ac a fydd o ddiddordeb i chi, gobeithio. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau yr hoffech eu gwneud, cysylltwch â mi yn ddi-oed, os gwelwch yn dda.

***Yno bob amser pan fyddaf eich angen: Adolygiad Blynyddol ChildLine 2014/15***
Bydd yr NSPCC yn cyhoeddi'r Adolygiad Blynyddol o weithgaredd llinell gymorth ChildLine dros y cyfnod 2014/15. Mae'r adolygiad yn nodi yn 2014/15 y bu bron i 290,000 o sesiynau cwnsela ChildLine gyda phlant a phobl ifanc ynghylch materion a oedd yn effeithio arnynt. Gall edrych ar y materion sy'n achosi iddynt gysylltu â ni ein helpu i adeiladu darlun o'u bywydau a natur y problemau y maent yn eu hwynebu.

Y deg prif reswm pam fod plant a phobl ifanc yn cysylltu â ChildLine oedd

1. Perthnasoedd Teuluol
2. Diffyg hunan-barch/anhapusrwydd
3. Bwlio/bwlio ar-lein
4. Hunan-niweidio
5. Yn teimlo fel cyflawni hunanladdiad
6. Materion yn ymwneud â chyfeillgarwch
7. Rhyw/perthnasoedd/y glasoed/iechyd rhywiol
8. Problemau ysgol/addysg
9. Anhwylderau iechyd meddwl/iselder
10. Cam-drin rhywiol a cham-drin rhywiol ar-lein.

Mae'r adolygiad yn darparu dadansoddiad o niferoedd y plant a'r bobl ifanc a gafodd eu cwnsela gan ChildLine, eu nodweddion, a thueddiadau dros y blynyddoedd diweddar.

Mae *Yno bob amser pan fyddaf eich angen* yn canolbwyntio ar bryderon iechyd meddwl a lles. Fel y gellir gweld o'r rhestr uchod, mae pedwar o'r deg prif reswm dros gysylltu â ChildLine yn ymwneud ag iechyd meddwl. Ond mae cam-drin yn parhau i fod yn fater blaenoriaeth i blant a phobl ifanc gysylltu â ChildLine. Y llynedd, cysylltodd dros 26,000 o blant a phobl ifanc â ni gyda phryderon ynghylch cam-drin rhywiol, corfforol neu emosiynol neu esgeulustod.



National Society for the Prevention of Cruelty to Children (NSPCC). Noddwr Brenhinol: Ei Mawrhydi'r Frenhines. Llywydd: Ei Huchelder Brenhinol Iarlles Wessex. Sefydlwyd yn 1884. Ymgorfforwyd gan Siartr Frenhinol RC000374. Rhif elusen gofrestredig 216401 (Cymru a Lloegr) a SC037717 (Yr Alban).

National Society for the Prevention of Cruelty to Children (NSPCC). Royal Patron: Her Majesty The Queen. President: HRH The Countess of Wessex. Founded in 1884. Incorporated by Royal Charter RC000374. Registered charity number 216401 (England and Wales) and SC037717 (Scotland).

Canfu ChildLine, yn bryderus iawn, y teimlai llawer o bobl ifanc mai ychydig iawn o gymorth yr oeddynt yn ei dderbyn ac nad oedd modd iddynt gael y cymorth hanfodol oedd ei angen arnynt.

O ddydd Iau 10 Medi, gallwch ddarllen adolygiad blynyddol ChildLine, *Yno bob amser pan fyddaf eich angen,* ar wefan yr NSPCC, www.nspcc.org.uk. Rydym yn rhyddhau'r stori hon i'r cyfryngau a byddem yn ddiolchgar pe gallech barchu'r embargo tan ddydd Iau.

**Mynd i'r afael â diogelwch ar-lein: cyhoeddi partneriaeth rhwng 02 a'r NSPCC**
Rydym hefyd eisiau eich briffio ar y bartneriaeth a gyhoeddwyd yn ddiweddar rhwng 02 a'r NSPCC i fynd i'r afael â diogelwch ar-lein. Mae 02 a'r NSPCC yn cydnabod manteision addysgol a chyfathrebu niferus y rhyngrwyd. Rydym hefyd yn deall fod rhieni a gofalwyr yn aml angen help, cyngor a chefnogaeth i gadw'u plant yn ddiogel yn wyneb peryglon y "byd ar-lein".

Mae'r bartneriaeth rhwng 02 a'r NSPCC yn ceisio sicrhau bod gan rieni fynediad at gyngor a chefnogaeth ymarferol i helpu i gadw'u plant yn ddiogel ar-lein. Rydym yn darparu cyngor arbenigol, un i un, rhad ac am ddim i rieni drwy gyfrwng llinell gymorth newydd benodol (0808 800 5002), yn ogystal â gweithdai rhyngweithiol a gyflwynir mewn gweithleoedd ac ysgolion.

Mae manylion llawn y bartneriaeth ar gael ar wefan yr NSPCC (www.nspcc.org.uk) ac ar www.02.co.uk/nspcc.

**Allwch chi helpu i hyrwyddo'r cynlluniau hyn?**
Byddem, wrth gwrs yn croesawu adborth gennych ar y ddau gynllun hwn, yn ogystal â'ch cefnogaeth. Os oes gennych chi unrhyw sylwadau, mae croeso i chi gysylltu â ni. Os oes gennych chi gylchlythyr neu ddogfen friffio ac yr hoffech gael erthygl fer byddem yn hapus i ddarparu cymorth. Yn olaf, byddem yn falch iawn, cyn belled ag y bo'n ymarferol, i ddarparu siaradwr mewn unrhyw gyfarfod neu bwyllgor fyddai'n briodol yn eich barn chi.

Yn gywir



Des Mannion
Pennaeth Gwasanaethau Cenedlaethol NSPCC Cymru

**MAE POB PLENTYNDOD WERTH BRWYDRO DROSTO**
**EVERY CHILDHOOD IS WORTH FIGHTING FOR**

**National Society for the Prevention of Cruelty to Children (NSPCC).** Noddwr Brenhinol: Ei Mawrhydi'r Frenhines. Llywydd: Ei Huchelder Brenhinol Iarlles Wessex. Sefydlwyd yn 1884. Ymgorfforwyd gan Siartr Frenhinol RC000374. Rhif elusen gofrestredig 216401 (Cymru a Lloegr) a SC037717 (Yr Alban).

**National Society for the Prevention of Cruelty to Children (NSPCC).** Royal Patron: Her Majesty The Queen. President: HRH The Countess of Wessex. Founded in 1884. Incorporated by Royal Charter RC000374. Registered charity number 216401 (England and Wales) and SC037717 (Scotland).